TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma mewn Therapi Harddwch (Technegol) Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r Diploma Technegol Lefel 3 VTCT mewn Therapi Harddwch yn gymhwyster uwch a sector-benodol a fydd yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel therapydd harddwch ac yn eich cefnogi i ennill gwaith.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... ydych wedi cymhwyso mewn Therapi Harddwch ar Lefel 2

... ydych am ddatblygu gwybodaeth arbenigol

... ydych chi'n gweithio'n galed ac mae gennych bersonoliaeth gyfeillgar

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael mynediad at y cwrs hwn, bydd angen Diploma Lefel 2 mewn Therapi Harddwch neu gyfwerth/profiad gwaith a gradd C neu'n uwch mewn TGAU Saesneg.

Rhaid i chi fod yn hunan-ysgogol, yn weithgar ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar. Cynhelir pob dosbarth ar y campws a bydd un noson yr wythnos lle mae'n bosib y bydd gofyn i chi fynychu'r coleg tan 7.30yh.

Mae profiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn rhan orfodol o'r cwrs, ac mae hyn yn cynnwys lleoliadau gwaith a gweithio ar gleientiaid yng nghlinigau harddwch y campws. Presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yw un o brif ofynion y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Byddwch yn gallu symud ymlaen i'r cyrsiau canlynol ar ôl cwblhau Therapi Harddwch Lefel 3 yn llwyddiannus. Bydd gan rai cyrsiau ofynion mynediad ychwanegol ond bydd y rhain yn cael eu trafod gyda chi pan fyddwch yn barod i wneud cais:

Diploma Lefel 3 mewn Therapïau Cyflenwol a Sba neu'r Diploma Cenedlaethol Uwch mewn Gofal Iechyd Cyflenwol
Tystysgrif Lefel 4 mewn Estheteg (Plicio Croen, Nodwyddo Croen, Dermaplanio (Dermaplaning) a Micro-lafnio (Micro-blading) ar gyfer Aeliau)
Diploma Lefel 2 neu 3 mewn Colur Theatrig a'r Cyfryngau
Cyflogaeth yn y diwydiant harddwch

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Cod gwisg:

Gwisg y mae'n rhaid ei gwisgo ar gyfer pob sesiwn ymarferol. Mae hwn yn ofyniad gorfodol
Rhaid clymu gwallt yn ôl yn daclus i ffwrdd o'r wyneb
Dim tyllu corff
Ni ellir gwisgo unrhyw emwaith heblaw modrwy briodas yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy, a fydd yn costio tua £198.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Ar gyfer 2023/2024 bydd y coleg yn ariannu'r gost o un wisg salon lawn. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2023/2024 yw £45.

Gallai costau ychwanegol godi yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu ac maent yn amodol ar newid.